

# Y Ffair a'r Ocsiwn yn y Bala

**B**u'r Ffair Bob Peth a'r Ocsiwn yn llwyddiannus iawn gan inni allu cadw'r cwsmeriad yno tan ddiwedd y prynhawn. Agorwyd y Ffair gan David Meredith gyda'i anecdodau a'i gyfeiriad at sut y saethodd beled i glawr Y Bywgraffiadur, o bob peth, pan yn hogyn ysgol. Aeth ymlaen i esbonio mai damwain oedd y digwyddiad ac nid rhyw atgasedd at lyfrau.

Buom yn ffodus iawn i gael nifer o eitemau hynod ddiddorol yn yr osciwn a hoffwn ddiolch i'r holl bobol hynny a fu'n barod i gynnig y rhain inni yn y Bala. Aeth copi llofnodedig o Kyffin am £240; llythyr oddi wrth R. S. Thomas am £90. Torrwyd cwys newydd eleni drwy gael nifer o stondinau gwahanol, megis yr un at elusen Tŷ'r Eos, a stondin hen bethau Cymreig. Oherywdd y llwyddiant, gallwn yn hyderus wahodd stondinau gwahanol eto y flwyddyn nesaf.



Llun Kyffin o bentref ar Ynys Môn yn cael ei arddangos gan Bronwen Roberts.



Elisabeth Ellis o Nanllec a Hilda Hunter o Groesoswallt mewn trafodaeth ddiddorol.



David Meredith yn ei morio hi wrth agor y Ffair yn swyddogol.



'Dyma'r llyfr mwyaf gwerthfawr yma' yn ôl Ann Davies o Siop Gristnogol Y Bala.



Rhai o aelodau'r Gymdeithas yn mwynhau eu hunain.